Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Saron a Chapel Hendre
# Festri Capel y Bedyddwyr
# Heol Saron
# Saron
# Rhydaman
# SA18 3LN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2016**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Saron a Chapel Hendre ym 1968 ac fe'i lleolir yn festri Capel y Bedyddwyr ym mhentref Saron ger Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore a phum prynhawn bob wythnos.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 30 o blant rhwng dwy a phum mlwydd oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 18 o blant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Ychydig o blant yn unig a ddaw o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae gan ychydig iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol a daw ychydig o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi saith aelod o staff. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd bresennol yn 2009.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf a chan Estyn ym Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn iawn ym mhob maes dysgu o ystyried eu mannau cychwyn
- y rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd, yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau yn annibynnol am gyfnodau sylweddol
- y rhan fwyaf o blant yn datrys problemau ac yn gwneud penderfyniadau yn hyderus yn ystod gweithgareddau rhydd ac wrth ymgymryd â thasgau ffocws
- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol iawn yn eu medrau, yn enwedig yn eu medrau Cymraeg, ac yn arddel tafodiaith leol gyfoethog
- llawer o'r plant yn gwneud dewisiadau pwysig am eu dysgu trwy ddilyn trywydd eu diddordebau heb lawer o ymyrraeth gan yr ymarferwyr
- rhan fwyaf o'r plant yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd ac yn barod i helpu eraill yn ddigymell
- gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth gadarn o'r plant ac maent yn paratoi gweithgareddau yn ofalus ar eu cyfer, gan ystyried eu hanghenion penodol
- ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n ofalus er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi plant i gaffael eu medrau'n llwydiannus ar draws y cwricwlwm
- yr arweinydd yn gydwybodol iawn ac wedi ymrwymo i'w rôl o sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol o safon uchel i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth gytûn y lleoliad yn arwain at ethos gofalgar a chroesawgar lle mae plant ac ymarferwyr yn awyddus i ddysgu
- gan arweinwyr ffocws clir ar ddatblygu dysgwyr hapus ac annibynnol sy'n hyderus wrth gyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg;
- gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel a'i bod yn arwain trwy esiampl wrth wneud yn siŵr bod y trefniadau yn arwain at godi safonau y rhan fwyaf o'r plant
- y lleoliad yn ymateb yn frwdfrydig i fentrau newydd cenedlaethol er mwyn datblygu a gwella'r ddarpariaeth
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn iddi, yn ymweld â hi yn aml, yn sicrhau her addas iddi, ac yn chwarae rhan weithredol yn rhediad y lleoliad

## Argymhellion

A1 Datblygu systemau hunanarfarnu sy’n gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau dysgu

A2 Sicrhau bod y cynllun datblygu yn cynnwys meini prawf llwyddiant mesuradwy a fydd yn gymorth i arweinwyr wrth iddynt fonitro camau gweithredu a chynnydd yn effeithiol

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn iawn ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Mae bron pob un plentyn yn ymgymryd yn frwdfrydig â’r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer, gan ddatblygu medrau annibynnol a chymdeithasol gwerthfawr iawn. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y lleoliad.

Mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarnhaol iawn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Mae hwn yn gryfder yn y lleoliad ac ychydig iawn o blant yn unig sy’n amharod i gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o’r iaith ac yn arddel tafodiaith leol gyfoethog. Mae gan bron pob un o’r plant fedrau gwrando sy’n datblygu’n dda. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau clywed stori ac yn awyddus i gyfrannu at yr hyn a ddarllenir iddynt, yn enwedig yn ystod sesiwn stori ar ddiwedd y dydd.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp, yn aros eu tro wrth ateb cwestiynau yn frwdfrydig, sy’n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o’r iaith. Mae’r rhan fwyaf yn trafod llythrennau, lliwiau a rhifau yn hyderus yn y Gymraeg wrth beintio, gwneud marciau ac wrth ddefnyddio offer adeiladu.

Mae’r mwyafrif yn dewis edrych ar lyfrau traddodiadol ac e-lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn gywir ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb cynyddol. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig gyda’i gilydd.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Nodwedd amlwg o’u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu wrth iddynt gwblhau tasgau ymarferol yn llwyddiannus. Maent yn gweld pwrpas mewn gwneud marciau ar bapur neu ar foncyff coeden, er enghraifft. Ceisiant wneud synnwyr o’u hysgrifen gydag oedolion a’i gilydd yn effeithiol wrth ysgrifennu archeb yn y siop, cofnodi mesuriadau ac ysgrifennu eu henwau a rhifau mewn olyniaeth gywir. Mae’r mwyafrif yn dechrau ffurfio llythrennau’r wyddor ac ychydig o eiriau cyfarwydd â rhifau yn annibynnol ac mewn ffurf sy’n ddealladwy.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy wneud defnydd ymarferol o rif. Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd y maent yn cyfrif nifer y plant sy'n bresennol a sawl un sydd eisiau tost amser byrbryd. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol fel ‘llai na’ neu ‘fwy na’, ‘tal’ a ‘byr’ yn gywir ac yn trafod nodweddion siapiau dau ddimensiwn yn llwyddiannus. Mae bron pob un plentyn yn grwpio gwrthrychau’n gywir yn ôl maint, siâp a lliw. Mae gan fwyafrif y plant ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio tâp mesur er mwyn canfod hyd gwahanol wrthrychau ac maent yn ymdrechu’n dda i gofnodi eu mesuriadau ar bapur.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio offer electronig yn hyderus iawn ac yn datblygu eu medrau llafar wrth ddefnyddio pegiau siarad electronig yn fedrus. Maent yn defnyddio'r cyfrifiadur yn annibynnol ac yn rheoli cyfarpar yn briodol wrth chwarae yn ymchwilgar. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechen electronig yn hyderus i dynnu llun eu cyfoedion yn gweithio. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r lluniau hyn maes o law wrth asesu'r gwaith y plant bob dydd. Mae medrau celfyddydol y rhan fwyaf o'r plant yn arbennig o gryf ac mae bron pob plentyn yn arbrofi'n fedrus i greu lluniau a gludwaith diddorol gydag ystod o ddeunyddiau a gwahanol baent.

Mae llawer yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o fod yn Gymry ac yn siarad yn synhwyrol am ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi ac ati. Maent yn mwynhau ymuno â'i gilydd i ganu hwiangerddi a chaneuon Cymreig ac yn gwneud hynny gyda brwdfrydedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau yn annibynnol. Maent yn gwneud penderfyniadau yn hyderus ac yn datrys problemau yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau rhydd ac wrth ymgymryd â thasgau ffocws.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno â gweithgareddau yn syth. Mae ganddynt berthynas agos ag ymarferwyr ynghyd ag agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae bron pob plentyn yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau sylweddol, er enghraifft wrth ymchwilio i wrthrychau'r Hydref yn y twba darganfod.

Mae bron pob un yn gwneud penderfyniadau buddiol ynglŷn â'u dysgu ac yn medru gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Mae pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol yn ystod y cyfnodau gwerthfawr a gânt i ddewis gweithgareddau. O ganlyniad, mae unigolion yn gwneud dewisiadau pwysig am eu dysgu trwy ddilyn trywydd eu diddordebau eu hunain, heb lawer o ymyrraeth gan yr ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd ymestynnol i lawer ohonynt ddatblygu hyder a meddwl annibynnol.

Mae ymddygiad llawer o'r plant yn dda. Mae'r mwyafrif yn gwrando'n astud, yn aros eu tro ac yn cymryd cyfrifoldebau yn ystod sesiwn byrbryd. Mae'r rhan fwyaf yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd ac maent yn barod i helpu eraill, er enghraifft wrth agor bocsys bwyd ei gilydd yn ddigymell. Mae bron pob plentyn yn ymwybodol o sut y gallant gadw'n lân ac yn iach wrth olchi eu dwylo cyn bwyta byrbryd.

Mae llawer o'r plant yn ymwybodol bod ganddynt yr hawl i fynegi barn ac i wneud penderfyniadau, er enghraifft wrth wneud dewisiadau am drefn y sesiwn canu. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd adnabod emosiynau yn eu hunain ac eraill. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos lefelau uchel o les ac mae ganddynt fedrau cymdeithasol, gofalgar arbennig iawn.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod o brofiadau cyffrous ac ysgogol ar draws bron pob un o'r meysydd dysgu. Mae'r ardaloedd yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o'r plant. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn ystod gweithgareddau symbylus. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ardaloedd yn y gymuned er mwyn hyrwyddo profiadau gwerthfawr ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Er enghraifft, defnyddir ardaloedd y gymuned i astudio byd natur trwy gasglu afalau o goed cyfagos yn ogystal â theithiau o amgylch y pentref i gyfatebu lluniau o dai amrywiol gyda thai go iawn. Mae'r lleoliad yn dechrau cynnwys syniadau'r plant wrth gynllunio'r gweithgareddau hyn. Mae'r ardal allanol sydd ynghlwm â'r lleoliad yn gyfyng iawn. Serch hynny, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol ohono i ddarparu profiadau addas ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio'n ofalus er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi'r plant i gaffael eu medrau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn bwrpasol yn ôl anghenion grwpiau penodol o blant. Cynllunnir yn effeithiol ar gyfer cyfoethogi ardaloedd ac mae hyn yn ffocysu'r ddarpariaeth ar ddatblygu medrau penodol plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymrwymo'n hyderus i'w chwarae ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cadarn mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Hyrwyddir y medrau hyn ar draws y mwyafrif o feysydd dysgu'n gyson, er enghraifft wrth drafod anghenion adeiladu, ysgrifennu ar foncyffion coed ac wrth arbrofi ar y bwrdd golau. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o gyfleoedd i'r plant ddatrys problemau sy'n codi yn ystod y sesiynau wrth eu holi'n fedrus, er enghraifft wrth annog y plant i ystyried pam nad yw'r bêl yn rholio'n llyfn ar ôl ei gosod yn y paent wrth greu llun tân gwyllt.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant. Maent yn eu hannog i weithio'n annibynnol a rhannu cyfrifoldebau yn briodol wrth nôl offer a thacluso'r dosbarth. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddal offer marcio yn gywir o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn hefyd yn cyfrannu'n dda at eu gallu i fod yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol a pherthnasol i hybu dealltwriaeth y plant o'r byd maent yn byw ynddo, er enghraifft wrth fynd am daith o gwmpas y pentref i gasglu dail yr Hydref ar gyfer y bwrdd darganfod.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ac yn darparu gweithgareddau cyffrous sy'n bodloni anghenion ieithyddol grwpiau penodol o blant. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o effeithiol ac maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus, gan annog y plant i ymateb yn y Gymraeg yn ôl eu gallu, gan roi sylw priodol i ddatblygu tafodiaith ac acen Rhydaman. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o draddodiadau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn llwyddiannus iawn. Mae hon yn nodwedd gref o waith y lleoliad. Mae plant yn cael cyfleoedd priodol i astudio gwaith artist lleol er mwyn sbarduno gwaith marcio a dylunio'r capel sydd drws nesaf i'r lleoliad. Caiff y plant gyfleoedd helaeth i ddysgu am ddiwylliannau eraill fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali wrth brofi bwydydd, chwarae rôl a chreu arteffactau fel canhwyllau dathlu. Mae hyn yn cael

effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygu eu dealltwriaeth o grefyddau a chelfyddydau byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gadarn am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cynnig amgylchedd dysgu diddorol dan do ac ardal allanol sy'n cynnwys yr ardal leol ehangach. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfle a gaiff y plant i ymweld â'r pentref i gasglu dail yr Hydref. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu wrth gynnal gwaith grwpiau bach a gwaith torfol. Maent yn sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a gweithgareddau dan arweiniad oedolyn. Mae hyn yn annog annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae gan ymarferwyr adnabyddiaeth gadarn o anghenion y plant ac maent yn paratoi gweithgareddau yn ofalus er mwyn mynd i'r afael a nhw. Maent yn annog y plant i ddewis eu gweithgareddau ac yn hwyluso'u dewis yn briodol. Enghraifft dda o hyn yw hwyluso dewis y plant i gynnal picnic yng nghanol yr ystafell. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer herio plant mwy abl yn datblygu'n briodol.

Mae gan yr ymarferwyr strategaethau llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae pob ymarferydd yn frwdfrydig drwy'r sesiynau ac yn ysgogi a chymell pob plentyn i ddysgu. Maent yn datblygu'r arfer o beidio ag ymyrryd yn ormodol mewn gweithgareddau chwarae rhydd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau'r plant. Sgil-effaith hyn yw bod y plant yn datblygu'r gallu i ganolbwyntio a bod yn ddyfeisgar wrth chwarae.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer asesu plant o'u man cychwyn. Mae ymarferwyr yn cofnodi asesiadau ac arsylwadau dyddiol yn gynhwysfawr ac yn gyson, ac yn defnyddio'r arsylwadau manwl dyddiol i fwydo'r cynllunio dilynol. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o dargedau unigolion ac yn trafod eu datblygiad a'u hanghenion yn fanwl.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hysbysu rhieni am ddatblygiad eu plant. Mae ymarferwyr yn rhannu adroddiadau gyda rhieni, yn cynnal trafodaethau gyda nhw, ac yn gosod lluniau digwyddiadau a phrofiadau yn y cyntedd ac ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn iddynt wybod beth mae eu plant wedi bod yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn sicrhau bod y plant yn gwneud dewisiadau synhwyrol wrth yfed a bwyta'n iach. Yn ystod amser byrbryd, mae ymarferwyr yn annog plant i roi cynnig ar fwydydd newydd ac yn darparu dŵr neu laeth iddynt i'w yfed.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr y tu mewn ac yn yr ardaloedd allanol i blant i ymarfer eu cyrff yn rheolaidd. Mae hyn yn datblygu gallu'r plant i gydsymud yn dda ac yn eu hannog i fod yn fywiog ac yn gorfforol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn cael ei chynllunio'n briodol. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau gwerth chweil i ddatblygu parch y plant tuag at eraill yn ogystal â'u dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda a drwg. Maent yn annog plant i

rannu cyfarpar ac i gymryd gofal o adnoddau. Rhoddir pwyslais buddiol ar ddatblygu gwerthoedd fel tegwch a gonestrwydd, sy'n helpu'r plant i ddysgu i fod yn ddinasyddion gofalgar yn llwyddiannus iawn.

Datblygir medrau annibynnol a chymdeithasol y plant yn effeithiol yn ystod y cyfnod byrbrydau ac amser cinio. Mae ymarferwyr yn annog y plant i osod y bwrdd, gweini bwyd a diod i'w cyfeillion, ac i gymryd cyfrifoldeb am glirio a thacluso. Mae'r lleoliad yn manteisio ar amser byrbryd er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i ailgylchu gwastraff. Mae'r plant yn cael eu hatgoffa'n gyson i ddefnyddio twba compost ar gyfer bwyd gwastraff; i ddiffodd y golau a'r tapiau dŵr; i gasglu dŵr glaw ar gyfer y planhigion ac i ailgylchu papur a phlastig. Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod o strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da, sy'n cael eu defnyddio'n synhwyrol a sensitif gan yr holl ymarferwyr. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r rhain.

Mae prosesau priodol ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gyflym i'r anghenion hyn. Mae gan y lleoliad gysylltiadau effeithiol ag ystod o asiantaethau cefnogi ac mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni'n llawn wrth ddatblygu cynlluniau unigol plant. Mae'r lleoliad yn cychwyn cynllunio gweithgareddau addas a heriol ar gyfer bodloni anghenion plant mwy abl a thalentog.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac mae'r ymarferwyr yn ymdrechu'n llwyddiannus i sicrhau bod y plant a'r rhieni yn teimlo'n rhan o gymuned gynhwysol. Mae ymarferwyr yn arwain drwy esiampl wrth annog plant i ddangos goddefgarwch a pharch tuag at ei gilydd ac adnoddau'r lleoliad. Mae'r agosatrwydd sy'n bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr yn cyfrannu'n dda at awydd y plant i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau, a safonau cadarnhaol yr ymddygiad sy'n bodoli o fewn y lleoliad. Gosodir sylw a phwyslais amlwg ar ddarparu amgylchedd diogel sy'n annog y plant i gydnabod a dathlu eu cefndiroedd amrywiol eu hunain ac eraill yn gwbl naturiol.

Mae gan bob ymarferwr gymwysterau priodol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Caiff y lleoliad ei leoli yn festri'r capel ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r ddwy ystafell sydd ar gael, yn ogystal â'r ardal allanol ac ardaloedd cyfagos, i addysgu'r plant. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd cadarn o'r ardaloedd hyn er mwyn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n tanio chwilfrydedd naturiol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o adnoddau symbylus yn grefftus er mwyn bodloni anghenion y plant a datblygu eu medrau'n llwyddiannus.

Mae'r lleoliad wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau TGCh sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn datblygu medrau'r plant. Mae arddangosfeydd o waith y plant yn dathlu eu cyflawniadau yn dda. Cedwir yr adeilad a safle'r lleoliad yn lân ac yn daclus.

| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn brofiadol, yn gydwybodol ac yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol o safon uchel i'r plant. Mae wedi creu lleoliad sydd â ffocws clir ar ddatblygu dysgwyr hapus ac annibynnol, sy'n hyderus wrth gyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg.

Mae gan y lleoliad drefniadau dyddiol priodol ac mae pob ymarferydd yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol a chydwybodol. Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ac mae'n arwain trwy esiampl. Mae'n sicrhau bod y trefniadau'n arwain at godi safonau y rhan fwyaf o'r plant, yn enwedig yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae gweledigaeth gytûn y lleoliad yn arwain at ethos gofalgar a chroesawus, lle mae plant ac ymarferwyr yn awyddus i ddysgu. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae'r prosesau i gyd-gynllunio ar gyfer gwelliant a rheoli'r lleoliad yn datblygu'n briodol. Mae'r cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar agweddau o ddarpariaeth a materion cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd hyn yn anffurfiol ar hyn o bryd ac ni chedwir cofnodion digon manwl o faterion gweithredu.

Mae gan bob ymarferydd ddisgrifiadau swydd manwl, sy'n amlinellu eu dyletswyddau addysgu yn glir. Mae ychydig o gyfrifoldebau eraill wedi eu diffinio'n briodol, ac yn ddiweddar mae arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu'n fwy effeithiol wrth gynllunio a gweithredu ar gyfer gwelliant.

Mae'r lleoliad yn ymateb yn frwdfrydig i fentrau newydd cenedlaethol er mwyn datblygu a gwella'r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae wedi ymateb i'r angen i godi proffil rhifedd. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n briodol a bod sylw manwl yn cael ei roi i ddatblygu medrau llythrennedd a TGCh y plant. Mae'r sylw a roddir i'r blaenoriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth yn ogystal â lles a safonau'r plant.

Mae gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad ymarferwyr yn effeithiol ac yn arwain at hyfforddiant buddiol sy'n diwallu eu hanghenion datblygu unigol ac anghenion y lleoliad. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn. Maent yn sicrhau her addas i ymarferwyr ac yn ymweld â'r lleoliad yn aml. Maent yn chwarae rhan weithredol wrth arsylwi ymarferwyr yn addysgu ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor llawn. Maent yn rhoi pwyslais amlwg ar sicrhau safonau uchel a lles y plant, ac yn cynnig cymorth gweithredol sy'n cyfrannu'n effeithiol at rediad hwylus y lleoliad. Un o'u cryfderau yw bod y pwyllgor yn sefydlog ac yn cynnwys sylfaenwyr y lleoliad, yn ogystal ag ychydig o gynrychiolwyr newydd o blith y rhieni. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwariant a materion cynnal y lleoliad, yn ogystal â dulliau codi arian. Mae rôl y pwyllgor wrth fonitro cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac, o ganlyniad, maent yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ei wneud yn llwyddiannus ac yn magu hyder wrth nodi meysydd i'w datblygu.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn rhoi disgrifiad priodol o'r ddarpariaeth yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer gwella yn ddigon strategol ac nid yw’r arweinwyr yn gwneud defnydd digon effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu er mwyn barnu’r effaith ar safonau'r plant. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn cynnwys mwyafrif o flaenoriaethau sy’n deillio o’r gweithgarwch hunanarfarnu. Mae’n cynnwys ffocws priodol ar feini prawf llwyddiant, ond nid yw’r rhain yn ddigon mesuradwy ac nid yw’r camau gweithredu bob tro’n ddigon clir. O ganlyniad, nid yw arweinwyr mewn sefyllfa ddigon cryf i fesur cynnydd y cynllun gwella’n ddigon gofalus.

Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Yn ddiweddar, maent wedi newid trefn y diwrnod trwy sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynnwys mwy o her ar gyfer y plant hŷn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg a rhifedd ymhellach.

Mae’r prosesau hunanarfarnu yn ystyried barn yr holl ymarferwyr yn ogystal â rhieni a gofalwyr y plant, ac mae’r arweinydd yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw faterion a godir. Mae’r arfer o annog y plant i fynegi barn am y sesiwn gyda’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod hefyd yn cychwyn cynnwys llais y plentyn fel rhan o’r trefniadau hunanarfarnu.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n briodol fel cymuned ddysgu sydd â ffocws clir ar godi safonau addysgu. Mae diwylliant effeithiol yn bodoli o gydweithio rhwng staff, yn enwedig o ran datblygu gallu’r plant i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad berthynas gadarn â’r rhieni a gofalwyr. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfraniad mae’r lleoliad yn ei wneud at ddatblygiad lles a safonau eu plant. Rhennir gwybodaeth am gyflawniad y plant gyda rhieni drwy gynnal sgyrsiau dyddiol, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, arddangos manylion ar yr hysbysfwrdd a thrwy drafodaethau yn ystod boreau agored. Mae’r rhieni’n manteisio ar bolisi drws agored y lleoliad ac yn hyderus i drafod unrhyw agwedd o waith y lleoliad gyda’r ymarferwyr. Maent yn gefnogol iawn, ac yn barod i gymryd eu tro i rannu eu profiadau gyda’r plant. Un enghraifft dda o hyn yw eu parodrwydd i ddod i esbonio a modelu eu swyddi fel rhan o’r thema ‘pobl sy’n ein helpu’.

Mae cysylltiadau a chydweithio effeithiol yn bodoli rhwng y lleoliad a’r ysgol leol sy’n sicrhau profiadau pontio llwyddiannus i’r plant ac i’w teuluoedd. Mae’r bartneriaeth ardderchog hon yn arwain, er enghraifft, at rannu dulliau addysgu wrth i aelod o’r lleoliad arsylwi sesiynau yn yr ysgol. Mae aelodau staff yr ysgol hefyd yn arsylwi sesiynau yn y lleoliad ac yn rhoi adborth i’r ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at ddatblygu medrau ymarferwyr, yn codi safonau ac yn cefnogi arweinyddiaeth yn llwyddiannus. Mae’r plant yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau amrywiol. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod y plant yn gadael y lleoliad wedi eu paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae gan y lleoliad ystod eang o gysylltiadau â'r gymuned. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad yn aml. Er enghraifft, mae radiolegydd, nyrs, person trin gwallt a milfeddyg wedi ymweld er mwyn cyfoethogi gweithgareddau ar gyfer y plant. Mae'r ymweliadau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r bobl sy'n eu helpu yn y gymuned. Mae hyn yn codi safonau a lles y disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw pan fu'r plant yn edrych ar luniau esgyrn wedi torri ac yn dysgu am sut i ofalu am berson sydd wedi torri asgwrn. Mae'r gymuned yn cynnig cefnogaeth dda i'r gweithgareddau codi arian wrth i ganran uchel iawn o'r pentref fynychu cyngerdd Nadolig y lleoliad a diwrnod mabolgampau.

Mae perthynas effeithlon yn bodoli rhwng y sefydliad a'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarperir ganddynt yn hyrwyddo gwelliant drwy gynnig syniadau a chefnogaeth ymarferol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifainc. Gwnânt ddefnydd priodol o ddiddordebau a medrau staff i wella profiadau dysgu plant, er enghraifft i hyrwyddo ymwybyddiaeth o liw a phatrwm wrth baentio.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r rhain yn effeithiol i nodi anghenion datblygiad. Enghraifft dda o hyn yw modd y mae'r lleoliad wedi blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer plant mwy abl fel maes sydd angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn manteisio ar ystod eang o hyfforddiant a datblygiad pwrpasol i adeiladu ar eu medrau a'u galluogi i fod yn gyfredol wrth eu gwaith. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar ddatblygu medrau rhifedd y plant yn cael ei ymgorffori wrth gynllunio gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn eisoes yn cael effaith dda ar allu'r rhan fwyaf o'r plant i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae ymarferwyr hefyd yn barod i wneud cysylltiadau niferus â lleoliadau eraill i rannu arfer dda. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygu'r defnydd o'r ardal allanol.

Mae'r arweinwyr yn cynhyrchu mantolen ariannol yn flynyddol sy'n cael ei gwirio'n allanol a'i chyflwyno mewn adroddiad blynyddol i'r Mudiad Meithrin a'r pwyllgor rheoli. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad. Un enghraifft dda o hyn yw'r gwariant diweddar ar adnoddau TGCh sy'n cael effaith dda iawn ar godi safonau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Esiampl dda arall yw'r cydbwysedd yn y dewis o wisgoedd yn yr ardal chwarae rôl i ennyn brwdfrydedd y plant i gyd i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r grant amddifadedd ac yn gwerthuso'r effaith mae'r gwariant yn ei chael ar safonau unigolion.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy. O ystyried yr addysgu effeithiol a'r arweiniad clir a phendant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 8<br>80%<br>80% | 2<br>20%<br>20% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 10 | 8<br>80%<br>84% | 1<br>10%<br>15% | 1<br>10%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 8<br>80%<br>86% | 2<br>20%<br>13% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 6<br>60%<br>81% | 4<br>40%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 10 | 7<br>70%<br>72% | 3<br>30%<br>27% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 9 | 7<br>78%<br>81% | 2<br>22%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 9<br>90%<br>84% | 1<br>10%<br>16% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 6<br>67%<br>76% | 3<br>33%<br>23% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 10 | 9<br>90%<br>85% | 1<br>10%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 8 | 5<br>62%<br>72% | 2<br>25%<br>27% | 1<br>12%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 4<br>40%<br>63% | 3<br>30%<br>30% | 3<br>30%<br>5% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 8 | 6 | 1 | 1 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 75% | 12% | 12% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 9 | 4 | 4 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 44% | 44% | 0% | 11% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 1 | 6 | 3 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 10% | 60% | 30% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |